❖ Gweddi Dydd Nadolig

Cyn agor y parselau,
cyn datod y rhubanau,
y gras, O Arglwydd, dyro im
i gofio'r rhai na chawsant ddim.

Cyn edrych ar y cardiau
a chofio am ein ffrindiau,
O dwg i'm cof trwy'r cofio i gyd
fod rhai heb gyfaill yn y byd.

Cyn eistedd wrth y byrddau
a gwledda ar dy ddoniau,
rho i mi gofio, Arglwydd Dduw,
y rhai heb fwyd i'w cadw'n fyw.

Yng nghanol fy nghyfeillion
a miri'r cwmni rhadlon,
gad i mi gofio am ambell un
fydd heddiw ar ei ben ei hun.

Wrth ganu ein carolau
a gwrando ar y clychau,
rho ras im gofio, dirion Dad,
y mud a'r byddar yn ein gwlad.

A minnau eto eleni
yn llon arŵyl y Geni,
gad i mi gofio'r rheini sy
y diwrnod hwn mewn galar du.

Wrth ddawnsio rownd y goeden
a'r lliwiau ar bob cangen,
gad i mi gofio, Iesu hoff,
fod rhai yn ddall a rhai yn gloff.

Cyn mynd i'r gwely heno,
O Arglwydd, gad im gofio
y rhai na chawsant ddim o'r hwyl
a gefais i ar Ddydd yr Ŵyl.

Selyf Roberts